Rhif: **WG18799**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Mynychu Cyfarfodydd Cyngor o Bell

Dyddiad cyhoeddi: **29 Mai 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **21 Awst 2013**

## Trosolwg

Canllawiau Statudol a wneir o dan Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

## Sut i ymateb

Anfonwch eich sylwadau ynghylch unrhyw agwedd ar y Rheoliadau a'r Canllawiau erbyn **21 Awst 2013** drwy un o'r dulliau isod:

Gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar ein gwefan:
http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/?lang=cy

E-bost: LGDTMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Neu postiwch hwy i'r cyfeiriad yn y manylion cysylltu isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Dogfennau defnyddiol:

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 - http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted/welsh

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tim Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: LGDTMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 5194

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2013

# MYNYCHU CYFARFODYDD CYNGOR O BELL

## Canllawiau statudol drafft a wneir o dan Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Bwriad Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") oedd cryfhau democratiaeth leol trwy gyflwyno, yn arbennig, ddiwygiadau sy'n cefnogi cynghorwyr y tu allan i'r weithrediaeth neu aelodau gweithredol pan fyddant yn gweithredu mewn swyddogaeth anweithredol. Un o'r diwygiadau hyn, yn adran 4 o'r Mesur, oedd cyflwyno'r posibilrwydd o fynychu cyfarfodydd cyngor o bell. Bwriad hyn oedd ei gwneud yn haws, er enghraifft, i'r rhai y gallai fod yn rhaid iddynt deithio pellter hir, y rhai sydd â chyfrifoldebau domestig a'r rhai sydd mewn cyflogaeth, i fynychu'r cyfarfod.

Canllawiau statudol o dan adran 4(6) o'r Mesur yw'r canllawiau hyn, ac mae rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdod a fynychir o bell yn unol ag adran 4.

<u>Beth y mae adran 4 o'r Mesur yn ei ddweud</u>

Mae Adran 4 yn darparu na chyfyngir presenoldeb mewn cyfarfod cyngor i gyfarfod o unigolion sydd i gyd yn bresennol yn yr un lle. Wrth "cyfarfod cyngor" rydym yn golygu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyngor yn ogystal â'r cyngor llawn ei hun. Er hynny, mae'r adran yn gosod rhai cyfyngiadau ar beth a olygir wrth fynychu o bell.

Pan fydd unrhyw aelod sy'n mynychu cyfarfod o bell ("mynychwr o bell"), yn siarad, mae rhaid iddo allu cael ei weld a'i glywed gan yr aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod yn y man lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal ("aelodau sy'n mynychu'r fangre") ac mae rhaid i'r mynychwr o bell, yn ei dro, allu gweld a chlywed y rhai sy'n mynychu'r fangre. Os oes gan unrhyw aelodau o'r cyhoedd hawl i fynychu'r cyfarfod, mae rhaid iddynt hwythau hefyd allu gweld a chlywed y mynychwr o bell ac mae rhaid iddo yntau, yn ei dro, allu eu gweld a'u clywed hwythau (os bydd ganddynt hawl i annerch y cyfarfod). Os oes mwy nag un lleoliad pell, mae rhaid i'r holl aelodau sy'n mynychu o bell allu clywed - ond ddim o reidrwydd gweld- y lleill sy'n mynychu o bell.

Ni ellir cynnal cyfarfodydd o bell ond os na waherddir hynny gan reolau sefydlog yr awdurdod lleol. Mae rhaid i'r rheolau sefydlog orchymyn hefyd na fydd cworwm yn achos unrhyw gyfarfod sydd â mynychwyr o bell os bydd mwy o fynychwyr o bell nag o aelodau sy'n mynychu'r fangre.

Caiff pob awdurdod lleol wneud rheolau sefydlog /rheolau eraill mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd o bell ac mae rhaid iddynt roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Mae'n fwriad gennym gyhoeddi'r canllawiau'r un pryd ag y daw'r adran o'r Mesur i rym.

Dylid nodi mai dim ond aelodau etholedig ac nid aelodau cyfetholedig sy’n cael mynychu cyfarfodydd o bell. Y rheswm dros hyn yw bod o nod o’i gwneud yn haws mynychu cyfarfodydd yn gysylltiedig â’r nod cyffredinol o annog mwy o bobl i ystyried dod yn gynghorwyr, ac nid yw’r nod hwnnw’n cael ei hybu trwy drefnu bod cyfleusterau ar gael i aelodau cyfetholedig.

Cefnogi mynychu o bell

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod goblygiadau technegol a staffio ynghlwm wrth gyflwyno mynychu o bell. Lle disgwylir i nifer o gynghorwyr fynychu o bell, a hynny yn ôl pob tebyg mewn swyddfa cyngor wahanol i’r man lle y cynhelir y cyfarfod, mae’n debygol y bydd angen i swyddog fod yn bresennol, er mwyn cefnogi’r aelodau sy’n mynychu o bell ond hefyd i sicrhau bod yr offer y mae ei angen er mwyn galluogi pobl i fynychu o bell yn gweithio’n iawn.

Bydd angen i’r awdurdodau lleol benderfynu a ydynt am ganiatáu i aelodau o’r cyhoedd allu bod yn bresennol mewn lleoliad pell. Os ydynt, byddai angen i swyddog fod yn bresennol i wneud trefniadau iddynt.

Mae’n glir y bydd angen darparu hyfforddiant priodol ar gyfer swyddogion a allai orfod mynychu cyfarfod o bell, er mwyn eu helpu i ymgynefino â gofynion y ddeddfwriaeth ac i ymdrin ag unrhyw faterion ymarferol. Dylai CLlLC allu cynorthwyo yn hyn o beth.

Mae’r angen i gydnabod cydraddoldeb rhwng Cymraeg a Saesneg yn arwyddocaol iawn wrth ystyried mynychu cyfarfodydd o bell. Bydd gan yr awdurdodau lleol eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain ond mae’n debygol y bydd cyfleusterau’n bodoli - neu y gellid trefnu iddynt fod ar gael - i ddarparu ar gyfer aelodau nad ydynt yn deall Cymraeg.

Gallai hyn beri problem pan fydd cyfarfodydd yn cael eu mynychu o bell. Gallai cyfleusterau cyfathrebu modern, megis y rhai a ddefnyddir i ddarlledu trafodion cyngor dros y we, gynnwys cyfleuster cysylltiedig. Felly pan fydd aelod yn penderfynu siarad Cymraeg, mae’r rhai sy’n gwylio’r darllediad mewn lleoliad arall yn clywed y cyfieithiad Saesneg yn cael ei drosleisio dros hyn yn hytrach na geiriau’r siaradwr.

Efallai na fydd aelod sy’n siarad Cymraeg ac sy’n mynychu cyfarfod o bell heb gyfleuster cyfieithu yn fodlon ar hyn gan y byddai rhaid i’r mynychwr o bell wrando ar y cyfieithiad Saesneg wedi’i drosleisio dros unrhyw Gymraeg sy’n cael ei siarad.

Pe bai mynychwr o bell yn dymuno siarad Cymraeg, ni fyddai’n peri problem o ran y cyfleusterau cyfieithu i’r rhai sy’n mynychu prif ganolfan y cyfarfod oherwydd y byddent yn gallu dewis gwrando naill ai ar y siaradwr Cymraeg neu ar y cyfieithiad i’r Saesneg. Ond yn achos pobl ddi-Gymraeg yn y lleoliad pell, byddai angen i gyfleuster cyfieithu fod ar gael ar gyfer Cymraeg sy’n cael ei siarad yn y man cyfarfod.

Yn achos unig berson sy'n mynychu o bell, a hynny gartref neu yn y gwaith, er enghraifft, mae'r sefyllfa yn haws oherwydd y bydd modd i'r unigolyn hwnnw siarad Cymraeg, a bydd ei eiriau'n cael eu cyfieithu yn y prif leoliad. Ond mae problem yn parhau o hyd sef y byddai rhaid i unig siaradwr Cymraeg sy'n mynychu o bell glywed aelod sy'n siarad Cymraeg yn y prif leoliad yn cael ei drosleisio yn Saesneg.

Cynigir y dylai rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth y dylai aelodau, lle bynnag y bo modd, allu cymryd rhan mewn cyfarfod a fynychir o bell naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er hynny, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru na ddylid caniatáu mynychu cyfarfodydd o bell, os na fyddai modd, am resymau technegol neu resymau eraill, *ddarparu cyfieithu ar y pryd i siaradwyr di-Gymraeg sy'n mynychu cyfarfod lle y defnyddir Cymraeg a Saesneg*. Fel y cyfryw, efallai y bydd yr awdurdodau lleol am ofyn i'r aelodau *nodi eu hiaith ddewisol (o safbwynt siarad mewn cyfarfodydd ) ac a fyddai arnynt angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pe bai unrhyw gyfranogwr arall yn siarad Cymraeg.*

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cymryd yn ganiataol y bydd yr awdurdodau lleol yn meddu ar yr offer neu'r wybodaeth dechnolegol i sicrhau bod mynychu o bell yn gweddu i bawb. Efallai y bydd gan rywun sy'n mynychu o bell gartref neu yn y gwaith gyfyngiadau lled band sy'n effeithio ar ei allu i gymryd rhan yn llawn. Bydd angen i'r awdurdodau lleol benderfynu drostynt eu hunain i ba raddau y byddant yn buddsoddi neu'n cynorthwyo aelodau i feddu ar y cyfleusterau angenrheidiol i fynychu o bell.

Ceir adegau pan na fydd cyfarfodydd cyngor yn agored i'r cyhoedd, sef pan fydd materion cyfrinachol, neu "wedi'u heithrio" – fel y'u diffinnir yn Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – o dan ystyriaeth. Byddai'n bwysig sicrhau na fydd modd i unrhyw aelodau o'r cyhoedd mewn lleoliadau pell glywed neu weld y trafodion yn ystod cyfarfodydd o'r fath. Byddai unrhyw aelod a fyddai'n mynychu cyfarfod ac yn methu â datgelu bod unigolion yn bresennol mewn gwirionedd nad oedd ganddynt hawl i fod yn bresennol yn torri'r rheolau o ran eu cyfrifoldebau o dan y Cod Ymarfer .

Gall rheolau sefydlog awdurdodau lleol bennu pa fathau o gyfarfodydd y gellir eu mynychu o bell. Yn y lle cyntaf, gallai materion ymarferol fynnu y byddai nifer y cyfarfodydd lle y gellid defnyddio'r cyfleuster hwn yn eithaf cyfyngedig, er y byddid yn gobeithio dros amser y byddai nifer y cyfarfodydd y byddai modd eu mynychu o bell yn cynyddu.

Ym marn Llywodraeth Cymru ni fydda'n briodol, er hynny, i reolau sefydlog awdurdod lleol roi gwaharddiad llwyr ar fynychu o bell. Bwriad y Mesur oedd cyflwyno hyblygrwydd a gallai rhai cynghorwyr, oherwydd pellter oddi wrth y ganolfan, iechyd, cyfrifoldebau gofal neu gyflogaeth, elwa ar y gallu i fynychu cyfarfodydd o bell.

Yn ôl y Mesur, er mwyn sicrhau cworwm yn achos cyfarfod a fynychir o bell, mae rhaid i gyfran benodol o gynghorwyr fynychu mangre'r cyfarfod. Pe bai aelodau sy'n mynychu mangre'r prif fan cyfarfod yn ymadael â'r cyfarfod cyn

iddo ddod i ben, byddai hyn yn tarfu ar y cworwm. O ganlyniad byddai cyfran y cynghorwyr sy'n mynychu o bell yn uwch na'r nifer a ganiateir, ac ni fyddai gan y cadeirydd ddim dewis ond dod â'r cyfarfod i ben.

Dylai rheolau sefydlog wneud darpariaeth hefyd ar gyfer beth ddylai ddigwydd os bydd anhawster technegol yn golygu bod y cyfleuster cyfathrebu'n torri i lawr. Nid peth anghyffredin yw hyn mewn cyfarfodydd a gynhelir trwy gyfrwng fideo-gynadledda. Pe bai hyn yn digwydd, ym marn Llywodraeth Cymru dylai'r cadeirydd ddatgan toriad tra bo ymdrechion yn cael eu gwneud i gywiro'r nam. Os byddai angen, byddai rhaid rhoi'r gorau i'r cyfarfod ac ni ddylai'r cyfarfod barhau heb gyfraniad yr aelodau pell. Gallai rheolau sefydlog, er hynny, wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau o gyfarfodydd etc. Efallai na chaniateir cynnal cyfarfod, er enghraifft, sy'n gwneud penderfyniad brys neu gyfarfod sydd o dan gyfyngiad amser, gyda mynychwyr o bell neu byddai'r cyfarfod yn mynd rhagddo yn achos methiant cyfathrebu. Wedyn byddai'r rhai sy'n mynychu o bell yn ymwybodol o hyn ac yn derbyn y byddai'r cyfarfod yn parhau a byddai pleidlais yn cael ei chynnal heb iddynt fod yn bresennol yn achos methiant cyfathrebu.

Yn olaf, rhaid ystyried mater pleidleisio. Bydd rhaid i awdurdodau lleol ymgorffori trefniadau yn eu rheolau sefydlog er mwyn darparu i bleidleisio ddigwydd yr un pryd yn y prif leoliad(au) a'r lleoliada(au) pell. Caiff cadeirydd y cyfarfod gyfrif y pleidleisiau gan y bydd yn gorfod gallu gweld pob aelod yn pleidleisio. Gallai fod anawsterau i unrhyw gyngor sydd wedi cyflwyno systemau pleidleisio electronig. Oni ellir cyflwyno technoleg i ganiatáu ar gyfer pleidleisio yn electronig mewn lleoliadau pell, rhagwelir y byddai angen cynnal pleidlais trwy godi llaw ym mhob lleoliad er mwyn osgoi triniaeth annheg yn achos y rhai mewn lleoliadau pell, h.y. byddai modd gweld sut y byddent yn pleidleisio, ac ni fyddai hyn yn wir yn achos y rhai sy'n pleidleisio yn electronig.

***Canllawiau drafft at ddibenion ymgynghori yw'r canllawiau hyn. Gwahoddir eich sylwadau ar y materion a drafodir uchod ac ar unrhyw fater arall y mae angen mynd i'r afael ag ef yn eich barn chi yn y canllawiau hyn.***